# Adolygiad Rheoleiddio - Dyfarniad Cadarnhau

## Awst 2026

## Cymdeithas Tai Sir Fynwy - L144

Yn dilyn Adolygiad Rheoleiddio, mae Dyfarniad Rheoleiddio mis Tachwedd 2024 ar gyfer Cymdeithas Tai Sir Fynwy wedi ei gadarnhau.

## Dyfarniad

| Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Mae'r landlord yn bodloni ein gofynion** |
| **Hyfywedd Ariannol** | |
| **Gwyrdd** | **Mae'r landlord yn bodloni ein gofynion** |

### Y Broses Ddyfarnu

Cynhaliwyd yr Adolygiad Rheoleiddio yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru 2025. Roedd yn cynnwys adolygiad bwrdd gwaith o hunanwerthusiad y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSL), ei gynllun gwella cydymffurfiaeth a metrigau hyfywedd ariannol. Ystyriwyd gwybodaeth o gyswllt rheoleiddiol arferol â'r RSL hefyd. Mae'r dyfarniad blaenorol yn parhau i fod ar waith ar y sail nad oes unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg sy'n newid proffil risg yr RSL yn sylweddol.

### Hunanwerthuso - Gofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025

Mae Cymdeithas Tai Sir Fynwy wedi cyhoeddi ei hunanwerthusiad lle gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

### Proffil

**Proffil Cymdeithas Tai Sir Fynwy**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr Unedau** | 3917 |
| **Trosiant Blynyddol** | £29.976M |
| **Sicrwydd llog** | 1281% |
| **Gerio** | 25% |
| **Math o RSL** | **Cymdeithas 'Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr' (LSVT)** |
| **Lleoliad** | **De-ddwyrain Cymru** |

*Fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025, dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd.*

Bwriad dyfarniadau rheoleiddio yw rhoi syniad i RSLs, eu tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda y maent yn perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â'r safonau rheoleiddio a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar y canlynol:

• Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
• Hyfywedd Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar ddyfarniadau at unrhyw ddiben arall. Mae RSLs yn gyfrifol am gyflawnder a chywirdeb yr wybodaeth a roddir i'r Rheoleiddiwr yn eu hunanwerthusiad a'u tystiolaeth ategol.

Y Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhydycar
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@llyw.cymru

ISBN digidol 978-1-80853-172-9
Hawlfraint y Goron 2026